# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

# MERTHYR TUDFUL

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# DATGANIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

# 2022-2023

## CYNNWYS

**RHAGAIR** Tud 3

**CYFLOGEION AR GYFER POB CHWARTEL--**Tud 4

**CANRAN GWRYWOD A BENYWOD AR GYFER POB CHWARTEL** Tud 5

**CANOLRIF BWLCH CYFLOG (CYFARTALEDD) RHWNG Y RHYWIAU GAN DDEFNYDDIO CYFLOG YN ÔL YR AWR** Tud 9

**BWLCH CYFLOG BONWS RHWNG Y RHYWIAU** Tud 10

**CYD-DESTUN SEFYDLIADOL** Tud 12

**ATEB Y BROBLEM** Tud 13

**GWYBODAETH GYSWLL** Tud 14

# RHAGAIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) yn gyflogwr mawr a chanddo dros 2,500 o gyflogeion sydd yn gweithredu oddi fewn i'r sector gyhoeddus. Mae'n ofynnol felly i'r Cyngor adodd yn ôl ar ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog bonws rhwng y rhywiau.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fesur o gydraddoldeb sydd yn dangos y gwahaniaethau rhwng cyflogau menywod a dynion.

Wedi **17/01/24**, mae bvwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU ar ei lefel isaf erioed, yn **5.188% ym Mawrth 2023**

Nid yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth mewn cyflog ar gyfer swyddi tebyg. Mae cyflog anghyfartal wedi bod yn anghyfreithlon ers dyfodiad Deddf Cyflog Cyfartal 1970.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithredu Cynllun Gwerthuso Swyddi'r GLPC sydd yn sicrhau fod cyflog a gradd pob swydd yn deg ac nad ydym yn gwahaniaethu.

Yn unol â gofynion y Llywodraeth, mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyfrifo ac adrodd yn ôl ar y ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau canlynol:

1. canran o ddynion a menywod sydd ymhob chwartel cyflog yn ôl yr awr
2. canolrif (cyfartaledd) bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn defnyddio cyflog yn ôl yr awr
3. canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn defnyddio cyflog yn ôl yr awr
4. canran y dynion a'r menywod sydd yn derbyn cyflog bonws
5. canolrif (cyfartaledd) y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn defnyddio cyflog bonws
6. canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn defnyddio cyflog bonws
   Ffynhonnell: https://www.gov.uk/guidance/making-your-gender-pay-gap-calculations

## CYFLOGEION AR GYFER POB CHWARTEL

### Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau CBSMT  - Cipolwg 31 Mawrth 2023

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyfanswm o 1325 o gyflogeion i'w nodi yn yr adroddiad.

Cafodd y cyflogeion hyn eu dethol o'r uchaf i'r isaf yn ôl eu cyflog pob awr mewn chwarteli a oedd yn golygu bod 331 o gyflogeion ymhob chwartel, sef 1 cyflogai; felly bydd 1 cyflogai yn cael ei ychwanegu i'r **chwartel cyflog pob awr, isaf** yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.


- chwartel cyflog pob awr, uchaf (331 o gyflogeion)
- chwartel cyflog pob awr, canol uchaf  (331 o gyflogfeion)
- chwartel cyflog pob awr canol, isaf (331 o gyflogeion)
- chwartel cyflog pob awr, isaf (332 o gyflogeion)

## CANRAN GWRYWOD A BENYWOD AR GYFER POB CHWARTEL

Dyma fanylion y cyflogeion, yn ôl rhywedd:

- **chwartel cyflog pob awr, uchaf (331 o gyflogeion)**

**131 o gyflogeion gwrywaidd (39.5%)**
**200 o gyflogeion benwyaidd (60.5%)**





Males – Gwrywod
Females - Benywod

- **chwartel cyflog pob awr, canol uchaf (331 o gyflogeion)**

**126 o gyflogeion gwrywaidd (34.2%)**


**205 o gyflogeion benwyaidd (65.8%)**



Males – Gwrywod
Females - Benywod

- **chwartel cyflog pob awr, isaf (331 o gyflogeion)**

| |
|---|
| **116 o gyflogeion gwrywaidd (35.04%)** <br> **215 o gyflogeion benywaidd (64.96%)** |




Males – Gwrywod
Females - Benywod


- **chwartel cyflog pob awr, isaf (332 o gyflogeion)**

| |
|---|
| **71 o gyflogeion gwrywaidd (21.40)** <br> **216 o gyflogeion benywaidd (78.60%)** |

**443 male employees** **(33.4%)**

Males – Gwrywod


Females - Benywod




**Cyfanswm** = **1325** o gofnodion

**443 male employees** **(33.4%)**

**882 female employees** **(66.6%)**




Males – Gwrywod

Females - Benywod

## CANOLRIF BWLCH CYFLOG (CYFARTALEDD) RHWNG Y RHYWIAU GAN DDEFNYDDIO CYFLOG YN ÔL YR AWR

**Cyfrifo'r canolrif (cyfartaledd) cyflog, yn ôl yr awr i ddynion**

Cyfanswm gwrywod = **443**

Cyfanswm cyfradd yn ôl yr awr i wrywod = **£7171.06**

$$\frac{7171.06}{443} = £\mathbf{16.19}$$

**Cyfrifo'r canolrif (cyfartaledd) cyflog, yn ôl yr awr i fenywod**

Cyfanswm benywod = **882**

Cyfanswm cyfradd yn ôl yr awr i fenywod = **£13539.34**

$$\frac{13539.34}{882} = £\mathbf{15.35}$$

Y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau cyflog cyfartalog yn ôl ye awr fyddai (£16.19 diffyg £15.35) = **£0.84**

Felly, am bob £1.00 y mae dyn yn ei ennill, mae menyw yn ennill £0.84 (94.81% o £1)

Mae'r gyfradd cyflog cyfartalog **5.188%** yn is na'r gyfradd gyfartalog yn ôl yr awr ar gyfer dynion (0.84/16.19 x 100)

Y gyfradd cyflog cyfartalog yn ôl yr awr i fenywod yw **94.81%** o'r gyfradd cyfartalog yn ôl yr awr i ddynion.

15.35/16.19 X 100 = **94.81%**

## CANOLRIF Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU GAN DDEFNYDDIO CYFLOG YN ÔL YR AWR

**CBSMT**

Canolrif cyfradd yn ôl yr awr ar gyfer dynion = **£13.91**

Canolrif cyfradd yn ôl yr awr ar gyfer menywod = **£13.17**

**13.91 – 13.17 = 0.74**

**0.74/13.91 = 0.053**

**0.053 x 100 = 5.3%**

**Canolrif y bwich cyflog rhwng y rhywiau gan ddefnyddio cyflog yn ôl yr awr = 5.3%**

Drwy ddefnyddio'r canolrif hwn, mae dynion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael eu talu **5.3%** yn fwy na'r menywod, sydd yn golygu am bob £1 y mae dyn yn ei ennill mae menyw yn ennill £0.95c

## BWLCH CYFLOG BONWS RHWNG Y RHYWIAU

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, nid ydym yn gweithredu taliadau bonws na chyflog sydd yn seiliedig ar berfformiad. Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, cyflog bonws at ddibenion cyfrifiadau Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, mae'r canlynol wedi'u heithrio o'r bwlch cyflog bonws:

- taliadau goramser
- taliadau sydd yn gysylltiedig â goramser (oni bai bod gwyliau blynyddol wedi crynhoi)
- taliad dileu swydd
- taliad sydd yn gysylltiedig â dod a chyflogaeth i ben
- taliad yn lle gwyliau blynyddol
- cynlluniau benthyg a ddarperir gan y cyflogwr
- buddion
- bonws a ddyfarnwyd ond nad sydd wedi'i dalu yn ystod y 12 mis sydd yn dod i ben ar ddyddiad y cipolwg

Yn unol â hyn, nid oes ffigwr i'w nodi ar gyfer Bwlch Cyflog Bonws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

## CYD DESTUN SEFYDLIADOL

Mae'r data'n dangos fod mwy o fenywod nag y sydd o ddynion yn gwneud swyddi ymhob chwartel.

Rydym yn hyderus nad yw'n Canolrif Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn deillio o dalu cyflogau gwahanol i gyflogai gwrywaidd a benywiadd am wneud yr un gwaith neu waith cyfatebol. Mae'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn ganlyniad i'r rholiau y mae gwrywod a menywod yn eu gwneud ar hyn o bryd a'r cyflogau ar gyfer y rholiau hynny.

Mae'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn adlewyrchu cymdeithas. Mae ymchwil yn dangos fod cyfrifoldebau gofal a swyddi rhan amser yn parhau i gael eu rhannu/didoli'n angyfartal ac mai menywod, yn bennaf sydd yn gwneud swyddi rhan amser. Mae'r cyfle i weithio'n rhan amser, ymhob swydd arall, ledled strwythur y Cyngor yn cael ei gefnogi gan amrywiaeth o bolisïau ar gyfer teuluoedd sydd yn cynnig cyfle i ddynion a menywod ganfod cydbwysedd rhwng gwaith, hamdden, teulu a chyfrifoldebau gofal.

Mae gweithio ystwyth a hyblyg yn allweddol er mwyn lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion er mwyn ei gwneud yn haws i gyflogeion sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd gwaith a chartref gan gynnwys cyfleoedd gweithio ystwyth, hyblyg, gweithio o'r cartref, seibiant gyrfa, seibiant yn sgil mabwysiadu a chyfrifoldebau gofal, cynllun gweithio hyblyg, rhannu swyddi, cyfnodau o'r gwaith ar gyfer rhieni, rhieni ar y cyd, cyfnodau tadolaeth, gweithio rhan amser a chyfleoedd gwaith yn ystod cyfnod y tymor yn unig.

Er bod dynion wedi dangos mwy o ddiddordeb yn y polisïau hyn dros y blynyddoedd, mae mwy o fenywod na dynion yn manteisio ar y cyfleoedd y mae'r polisïau hyn yn eu cynnig, ar hyn o bryd.  Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau amrywiol sydd â nifer fawr o swyddi rhan amser yn y chwartel cyflog isaf ond bydd y cyfle i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn anodd a hynny yn sgil y niferoedd o fenywod sydd yn parhau i wneud y mathau hyn o swyddi.

## ATEB Y BROBLEM

Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu gwahaniaethu, ymhob ffordd ac mae'n Aelodau Etholedig a'n cyflogeion yn gweithio er mwyn sicrhau y gall pob un aelod o'n cymunedau gyrchu a manteisio ar amrywiaeth lawn o wasanaethau, waeth beth yw eu cefndiroedd a'u sefyllfaoedd. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i wneud pob peth o fewn ei allu i barchu natur amrywiol pawb sydd yn byw, gweithio ac sydd yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.

Mae'r meysydd eraill sydd yn rhan o ofynion cyfreithiol y Cyngor ac y'u gelwir yn "nodweddion gwarchodedig," yn cynnwys rhywedd ac arall, cydraddoldeb ehangach, hawliau dynol ac iaith yn cael eu nodi mewn manylder yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-2024. <http://intranet.mtcbc.local/media/4327/merthyr-tydfil-county-borough-council-strategic-equality-plan-2020-2024-english.pdf>

Mae'r Cyngor wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a rhaglenni gwaith sydd yn cyflawni ei ofynion cyfreithiol ym maes cyfleoedd cyfartal ac yn ymroddedig i gyfle cyfartal ymhob agwedd o gyflogaeth.

Mae'r Cyngor yn cymryd camau cadarnhaol er mwyn lleihau unrhyw anfantais a brofir gan unigolion a grwpiau. Mae'n cydnabod fod cydraddoldeb yn cyfrannu at y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau a galluoedd cyflogeion.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol i greu strwythur cyflog a graddio tryloyw, nad sydd yn gwahaniaethu ac amodau gwasanaeth sydd yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cyflog Cyfartal ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sydd yn diogelu rhag gwahaniaethu. Er mwyn cefnogi'r aelodau hynny o'n staff sydd yn derbyn y lleiaf o dâl, ar draws pob cyfarwyddiaeth, rydym yn talu mwy nag isafswm cyfradd cyflog byw, yn ôl yr awr y *Living Wage Foundation* a oedd yn £10.42 yr awr ar 31 Mawrth 2023.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal ymhob agwedd o gyflogaeth ac yn narpariaeth y gwasanaeth, fel yr amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac rydym yn cydnabod anghenion, gofynion a dyheadau gwahanol pob unigolyn. Mae'r Cyngor yn gweithio yn erbyn pob gwahanol fath o wahaniaethu drwy hyrwyddo perthnasau da a pharch rhwng ein cymunedau, preswylwyr, aelodau etholedig, ymgeiswyr swyddi a'n gweithlu.

Rydyn yn ymroddedig i ddatblygu sefydliad iach sydd yn darparu amgylchedd sydd yn meithrin cyflogeion, darparu cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol ac sydd yn cydnabod rhagoriaeth.

Rydym wir yn gwerthfawrogi'n gweithlu ac yn gosod cydraddoldeb, cynhwysiant a llesiant wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud. Rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth ac yn herio tueddiadau ymwybodol ac anymwybodol wrth i ni wneud ein penderfyniadau a byddwn yn ceisio sicrhau fod pob un haen o gymdeithas yn cael eu cynrychioli, ar draws y sefydliad.

## GWYBODAETH GYSWLLT

Adran Adnoddau Dynol
Canolfan Dinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Rhif Ffôn: 01685 725000
E-bost : Human.Resources@merthyr.gov.uk